

CPLLL

Eich Lwfans Blynyddol

00:00

Pensiynau yn syml: Eich Lwfans Blynyddol

00:06

Mae pensiwn yn ffordd dreth effeithlon o gynilo ar gyfer bywyd ar ôl gwaith.

00:11

Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth yn gosod cyfyngiadau ar faint o bensiwn y gallwch ei Gronni

00:17

cyn i chi orfod talu treth ychwanegol.

00:20

Mae'r fideo hwn yn egluro eich lwfans blynyddol.

00:23

Dyma gyfanswm yr arbedion pensiwn y gallwch eu cronni mewn flwyddyn dreth

Ar y sgrin: Iwfans blynyddol safonol £60,000 o 6 Ebrill 2023

00:28

cyn bod yn rhaid i chi dalu treth ychwanegol.

00:31

Yn y CPLLL, mae'r cynnydd yng ngwerth eich buddion pensiwn

00:36

yn cael ei ddefnyddio i weithio allan faint o lwfans blynyddol rydych chi wedi'i ddefnyddio.

00:41

Mae gwerth eich pensiwn ar ddechrau'r flwyddyn dreth wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant

00:46

ac o'i gymharu â'r gwerth ar ddiwedd y flwyddyn.

00:49

Mae'r gwahaniaeth yn cael ei luosi ag 16,

00:53

Ychwanegir unrhyw gynnydd yn eich lwmp swm

00:56

yn ogystal ag unrhyw gyfraniadau gwirfoddol ychwanegol a dalwyd yn ystod y flwyddyn.

01:02

Nid yw'r lwfans blynyddol yn effeithio ar y rhan fwyaf o bobl

01:06

gan fod eu cynilion pensiwn yn is na'r cyfyngiad.

01:10

Os yw eich cynilion pensiwn yn y CPLLL yn cynyddu mwy na'r lwfans blynyddol

01:15

yna bydd eich cronfa bensiwn yn rhoi gwybod i chi

01:19

drwy anfon datganiad arbedion pensiwn atoch.

01:22

Mae'r lwfans blynyddol yn berthnasol i'ch holl gynilion pensiwn,

01:26

gan gynnwys eich pensiwn CPLLL, ond nid pensiwn y wladwriaeth.

01:31

Os ydych hefyd yn talu i mewn i bensiwn arall,

01:35

dylech wirio cyfanswm y lwfans blynyddol rydych wedi'i ddefnyddio.

01:41

Gofynnwch i'ch darparwyr pensiwn am ddatganiad arbedion pensiwn

01:41

os ydych chi'n credu y gallai hyn effeithio arnoch chi.

01:46

Os ydych yn meddwl y gall eich buddion fod yn fwy na'r lwfans blynyddol, peidiwch â phoeni.

01:51

Cymerwch olwg ar eich cynilion pensiwn dros y tair blynedd flaenorol.

01:56

Gallwch 'gario ymlaen' unrhyw lwfans blynyddol na ddefnyddiwyd i'r flwyddyn dreth gyfredol.

02:02

Felly hyd yn oed os byddwch yn mynd y tu hwnt i'r lwfans mewn un flwyddyn,

02:06

efallai na fydd yn rhaid i chi dalu treth ychwanegol.

02:10

Gallwch hefyd arafu eich twf mewn pensiynau

02:13

drwy symud i adran 50/50 y cynllun.

02:15

Yma rydych yn talu hanner y gyfradd gyfrannu arferol i adeiladu hanner y pensiwn.

02:24

Mae yna adegau pan allai'ch lwfans

Ar y sgrin: Eich Lwfans Blynyddol £60,000 o 6 Ebrill 2023

02:25

fod yn is na'r lwfans blynyddol safonol.

02:30

Er enghraifft, os yw eich incwm trethadwy a'ch cynilion pensiwn

02:34

dros y cyfyngiadau presennol mewn blwyddyn dreth.

02:38

Yna caiff eich lwfans blynyddol ei dapro

Ar y sgrin: Incwm trethadwy £200,000

02:41

a'i leihau wrth i'ch incwm gynyddu.

02:46

Os oes rhaid i chi dalu tâl treth lwfans blynyddol,

02:50

mae angen i chi ddweud wrth CThEM

02:52

drwy lenwi ffurflen dreth hunan asesiad.

02:55

Efallai y bydd eich cronfa bensiwn yn gallu talu'r tâl treth ar eich rhan.

02:59

Byddai hyn yn cael ei adennill drwy leihau eich pensiwn CPLLL yn barhaol.

03:06

Eich cyfrifoldeb chi yw talu'r swm cywir o dreth.

03:11

Dylech bob amser gymryd cyngor ariannol annibynnol

03:14

cyn i chi gymryd unrhyw gamau i leihau eich rhwymedigaethau treth.

03:17

I gael rhagor o wybodaeth am y lwfans blynyddol,

03:21

ewch i wefan y Llywodraeth.

Ar y sgrin: gov.uk – Treth ar eich pensiwn preifat

03:23

Gallwch hefyd ymweld â gwefan y CPLLL a defnyddio ein teclyn gwirio cyflym

Ar y sgrin: lgpsmember.org

03:28

i weld a ydych yn cael eich effeithio,

03:31

neu i wyllo mwy o'n fideos 'Pensiynau yn Syml'.

03:35

CPLLL. I chi. Am nawr. I'r dyfodol.

03:40

Mae'r fideo hwn ar gyfer gweithwyr yng Nghymru a Lloegr sy'n gymwys i ymuno â'r CPLLL. Mae'n darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n cynrychioli cyngor ariannol. Nid yw'n darparu unrhyw hawliau cytundebol na statudol ac os bydd unrhyw anghydfod bydd y ddeddfwriaeth briodol yn drech.